# Telerau ac Amodau Llyfrgelloedd Gwynedd

Mae aelodaeth Llyfrgelloedd Gwynedd ar gyfer y sawl sy'n byw, astudio neu'n gweithio yng Ngwynedd yn unig.

Trwy ymaelodi â'r llyfrgell, rydych chi'n cadarnhau eich bod wedi darllen a derbyn telerau ac amodau'r aelodaeth ac yn cytuno i gadw at y telerau hyn ar gyfer hyd y cytundeb. Gall methu â chydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn arwain at wahardd neu ddileu eich aelodaeth llyfrgell. Mae'r telerau ac amodau hyn wedi eu creu o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 ac yn unol ag is-ddeddfau Llyfrgelloedd Gwynedd.

## Amodau cyffredinol yr aelodaeth:

• Mae aelodaeth ar-lein yn rhoi'r hawl i chi ddefnyddio ein casgliadau digidol megis eLyfrau, llyfrau llafar a lawrlwythiadau. Pan fyddwch chi'n ymuno ar-lein cewch rif adnabod llyfrgell a rhif pin o'ch dewis chi, ar gyfer eich defnydd personol eich hun.

• Mae aelodaeth llyfrgell lawn yn rhoi'r hawl i chi ddefnyddio'r holl wasanaethau llyfrgell a ddarperir gan Lyfrgelloedd Gwynedd a'n sefydliadau partner. Pan fyddwch yn ymuno fel aelod llawn, byddwch yn derbyn cerdyn aelodaeth llyfrgell a rhif pin, ar gyfer eich defnydd personol eich hun.

• Mae gofyn i aelodau'r llyfrgell gyflwyno eu cerdyn aelodaeth llyfrgell wrth fenthyg eitemau a defnyddio cyfrifiaduron y llyfrgell.

• Fel aelod o'r llyfrgell rydych chi'n gyfrifol am yr holl eitemau a fenthycir ar eich cerdyn llyfrgell, gan gynnwys unrhyw eitemau coll/wedi'u difrodi y gellid bod angen talu amdanynt, ac am dalu unrhyw ffioedd sy'n cronni ar eich cyfrif llyfrgell.

• Chi sy'n gyfrifol am ein hysbysu ni am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol, e.e. newid cyfeiriad.

• Gallwch derfynu eich cyfrif ar unrhyw adeg.

• Pe dymunech ganslo eich aelodaeth llyfrgell, dylech ddychwelyd yr holl eitemau a fenthycwyd a dychwelyd eich cerdyn aelodaeth ar gyfer ei ddileu. Os oes unrhyw ffioedd heb eu casglu ar eich cyfrif llyfrgell disgwylir i chi dalu amdanynt.

- Bydd cyfrifon yn cael eu terfynu os i) yw wedi dod i ben ar yr LMS ac wedi bod yn segur am gyfnod o 12 mis neu ii) nid yw'r cyfri wedi dod i ben ond mae wedi bod yn segur am gyfnod o 24 mis

## Defnydd o gyfrifiaduron y llyfrgell a'r rhyngrwyd:

- I ddefnyddio ein cyfrifiaduron cyhoeddus dylech fod yn aelod llawn o'r llyfrgell a dod â'ch cerdyn llyfrgell a'ch rhif pin gyda chi bob tro. Ni chaniateir trosglwyddo mynediad i'r we drwy aelodaeth Llyfrgell i unrhyw berson arall.
- Os ydych chi o dan 16 oed byddwn yn ceisio caniatâd rhiant neu ofalwr i chi ddefnyddio'r we.
- Ni all plant o dan 8 oed ddefnyddio cyfrifiaduron y llyfrgell oni bai bod rhiant neu ofalwr gyda nhw.
- Cyfrifoldeb y rhiant neu ofalwr yw monitro a rheoli defnydd o'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron y llyfrgell y plant yn eu gofal. Os ydych chi'n pryderu am y cynnwys y gall eich plentyn ei weld wrth ddefnyddio cyfrifiadur y llyfrgell, gofynnwn i rieni/gofalwyr ddod gyda'u plant ar eu hymweliad i'r llyfrgell.

- Mae mynediad i'r we yn cael ei hidlo; ac mae pob mynediad yn cael ei gofnodi. Ni fydd cynnwys penodol unrhyw weithrediad yn cael ei fonitro oni bai bod amheuaeth o ddefnydd amhriodol.
- Gall unrhyw achos o dorri'r Polisi Defnydd Derbyniol yn anghyfreithlon gael ei gyfeirio at gymryd camau cyfreithiol neu at yr Heddlu.
- Rhaid i chi gytuno i gadw at ein Polisi Defnydd Derbyniol er mwyn dechrau eich sesiwn ar y cyfrifiadur.

## Diogelu Data a chadw data personol:

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn parchu'ch hawl i breifatrwydd ac wedi'i ymrwymo i'w ddiogelu yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.  Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni wrth ymuno â'r llyfrgell yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r cytundeb rhyngom ni. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddileu ein cytundeb.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn egluro sut rydym yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau.Ni fyddwn yn cadw'ch gwybodaeth yn hirach na'r angen, oni fydd hynny'n ofynnol dan y gyfraith.

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoli Cyfrif Defnyddiwr** | Data personol a gedwir ar gyfrif llyfrgell ar gronfa ddata System Rheoli'r Llyfrgell. Rydym yn rhannu eich data gydag Awdurdodau Llyfrgell gogledd Cymru.<br><br>Mae Cytundeb Aelodaeth yn parhau am gyfnod o 3 blynedd. | Cytundeb diwedd aelodaeth + 1bl<br><br>Bydd cyfrifon yn cael eu terfynu os:<br><br>Bydd y cyfri wedi dod i ben ar yr LMS ac wedi bod yn segur am gyfnod o 12 mis<br><br>Nid yw'r cyfri wedi dod i ben ond mae wedi bod yn segur am gyfnod o 24 mis |
| | Defnyddwyr gydag eitemau / ffioedd heb eu talu ar eu cyfrif ar ddiwedd y cytundeb. | Cytundeb diwedd aelodaeth + 6bl |
| | Hanes benthyg defnyddiwr llyfrgell. | Cytundeb diwedd aelodaeth + 1bl |
| **Defnydd cyfrifiadur cyhoeddus defnyddiwr llyfrgell.** | Data personol a gedwir ar gyfrif llyfrgell ar gronfa ddata System Rheoli'r Llyfrgell.<br><br>Data sesiynau a gedwir ar feddalwedd Rheoli Cyfrifiaduron Cyhoeddus. | Cytundeb diwedd aelodaeth + 1bl<br><br>Gwneir yn anhysbys mewn 24 mis oni bai bod taliadau yn daladwy. |
| **Hawl i Fod yn Angof** | Dileu'r data os gwneir cais, os nag yw'n angenrheidiol i'r gwasanaeth neu'n angen cyfreithiol i gadw'r data. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Monitro defnydd a thorri termau** | Defnyddwyr sydd wedi eu gwahardd rhag defnyddio gwasanaethau yn unol â'n polisi gwahardd. | Cedwir gohebiaeth am 3 blynedd o ddyddiad y gwaharddiad diwethaf<br><br>Bydd data sydd ynghlwm a gwaharddiad penagored yn cael ei gadw yn unol ag unrhyw ofyniad cyfreithiol. |
| **Digwyddiadau Llyfrgell** | Tynnu Llun o'ch plentyn<br><br>Neilltuo lle | 5 mlynedd<br><br>Tan fydd y gweithgarwch wedi'i gynnal |